| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **6 CHWEFROR 2025** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 27 IONAWR 2025** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol o gynllun 2024-25 yn y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 9 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

**2.2 Adroddiadau Archwilio**

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025, gan ddangos y lefel sicrwydd perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | LEFEL SICRWYDD | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Prosiect Trafnidiaeth Ysgolion | Amgylchedd | Trafnidiaeth Ysgolion | Cyfyngedig | Atodiad 1 |
| Rheoli Absenoldebau a Threfniadau Cyfeirio Rhan 2 | Corfforaethol | Gwasanaeth Cefnogol | Digonol | Atodiad 2 |
| Canu'r Gloch | Corfforaethol | - | Cyfyngedig | Atodiad 3 |
| Rheolaethau Allweddol Credydwyr | Cyllid | Credydwyr | Digonol | Atodiad 4 |
| Meysydd Parcio | Economi a Chymuned | Morwrol a Pharciau Gwledig | Digonol | Atodiad 5 |
| Toiledau Cyhoeddus | Priffyrdd, Peirianneg a YGC | Toiledau | Digonol | Atodiad 6 |
| Grant Atal Digartrefedd 2022/23 | Tai ac Eiddo | Digartrefedd | Cyfyngedig | Atodiad 7 |
| Grant Cymorth Tai | Tai ac Eiddo | Digartrefedd | Cyfyngedig | Atodiad 8 |
| Cynnal y Gofrestr Aros Tai | Tai ac Eiddo | Cyflenwad Tai a Phrosiectau Strategol | Digonol | Atodiad 9 |

2.2.2 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 27 Ionawr 2025:

- Safonau Digidol Addysg *(Addysg)*
- Ysgolion Cyffredinol *(Addysg)*
- Dilyniant Cronfeydd Ysgolion *(Addysg)*
- Cludiant Ysgolion *(Addysg)*
- Clwbiau Brecwast *(Addysg)*
- Trefniadau Dosbarthu Biniau *(Amgylchedd)*
- Rheolaeth Categori (*Amgylchedd*)
- Dilyniant – Rheolaeth Categori *(Gwasanaethau Corfforaethol)*
- Cynghori, Ymgynghoriaeth a Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Diogelu - Sefydliadau *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Rheoli Gwybodaeth – Sefydliadau (*Corfforaethol*)
- Defnydd o Ystafelloedd Allanol (*Corfforaethol*)
- Ymwybyddiaeth Gweithwyr Llaw o'r Polisi Diogelu (*Corfforaethol)*
- Glanhau Stryd *(Priffyrdd, Peirianneg a YGC)*
- Dilyniant – Manddaliadau *(Tai ac Eiddo)*
- Grant Atal Digartrefedd 2023/24 *(Tai ac Eiddo)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

Atodiad 1

# RHEOLI PROSIECT TRAFNIDIAETH YSGOLION

**1. Cefndir**

1.1 Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i blant ysgolion Uwchradd a Chynradd sy'n disgyn i'r gwahanol gategorïau o fewn y Polisi Cludiant Ysgolion, sef disgyblion Cynradd sy'n byw 2 filltir neu ragor o'r ysgol ddalgylch neu yr ysgol agosaf, disgyblion Uwchradd sy'n byw 3 milltir neu ragor o'r ysgol ddalgylch neu yr ysgol agosaf, ac ysgolion anghenion dysgu ychwanegol. Roedd 204 o gontractau tacsis a 106 o fysiau ysgol/coleg wedi eu dyfarnu mis Ebrill 2024, ac hyn yn gymysgedd rhwng ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion anghenion dysgu ychwanegol.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer rheoli a monitro cytundebau gyda chyflenwyr cludiant ysgolion a bod rheolaeth diogelwch cadarn ar gyfer diogelu disgyblion. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio cytundebau ar gyfer sampl o gyflenwyr a sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn cwrdd ag anghenion gwasanaeth o dan y Ddeddf Addysg 1996, gwirio y broses tendro cwmnïau, gwirio trefniadau monitro a rheoli cytundebau a chadarnhau bod gwiriadau DBS yn cael eu cynnal yn brydlon a bod y cyflenwyr yn dilyn polisïau perthnasol y Cyngor, gan gynnwys y Polisi Alcohol a Chyffuriau.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Gwelwyd mai Polisi Cludiant Ysgolion 2022-23 sydd wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer derbyn cludiant Ysgol ddi-dâl, yn ogystal â sut i ymgeisio amdano, gwybodaeth am ddisgyblion anghymwys a'r cod ymddygiad, yn unol â'r Ddeddf Addysg 1996. Gwelwyd bod manylion cyswllt, amserlenni a theithiau manwl ar gael ar y wefan, ond nid yw'r ddolen ar gyfer hysbysu'r ffioedd yn weithredol. Mae trefniadau ar y gweill i ddiweddaru'r Polisi Cludiant Ysgolion.

5.2 Mae'r Cyngor yn defnyddio system prynu electronig (DPS) i ddarparu gwasanaeth cludiant Addysg a Gofal Cymdeithasol. Mae'r system DPS wedi ei sefydlu i brynu nwyddau, gwaith neu wasanaethau ac fe'i ddefnyddir yn aml. Gwiriwyd cytundebau sampl o 6 cwmni tacsi a 6 cwmni bws. Derbyniwyd y Ddogfen Caffael Sengl ar gyfer 9 o'r sampl a wiriwyd, sef dogfen sy'n nodi pa wybodaeth sydd ei hangen gan y Cyngor er mwyn asesu pa mor addas yw'r ymgeiswyr o ran cydymffurfiaeth â'r meini prawf, eu sefyllfa economaidd ac ariannol, eu gallu technegol a phroffesiynol. Yn ogystal â'r ddogfen yma, mae cytundeb ychwanegol yn cael ei anfon allan i'r cyflenwyr i'w arwyddo, ond o'r sampl a wiriwyd, nid oedd yr un cyflenwr wedi dychwelyd y cytundeb yn ôl. Fe holiwyd y Rheolwr Categori Corfforaethol ynglŷn â hyn ac eglurodd nad yw'r ddogfen yn flaenoriaeth oherwydd bod y cwmnïau wedi datgan eu bod yn derbyn termau ac amodau'r cytundeb drwy system 'eTenderWales' fel rhan o'r broses DPS a'r Ddogfen Caffael Sengl. Yn ogystal, adroddwyd bod y Rheolwr Categori Corfforaethol wedi derbyn cyngor gan gwmni cyfreithiol nad oes rhaid i gytundeb gael ei arwyddo cyn bod yn rhwymol.

5.3 Gweler bod yr Adran yn gweithredu ar system pwyntiau rheoli perfformiad cytundeb sydd ynghlwm ag atodiad A o ddogfen telerau ac amodau caiff ei anfon allan i gyflenwyr. Bydd dyfarnu cyfanswm o 100 o bwyntiau mewn unrhyw gyfnod treigl o 12 mis yn sbarduno penderfyniad i derfynu cytundeb ar gyfer llwybr penodol o dan amodau cyffredinol y contract. Ni welwyd unrhyw enghraifft na thystiolaeth o hyn wedi'u weithredu yn ystod yr archwiliad, ac eglurodd y Rheolwr Cludiant nad oes achos wedi bod i ddyrannu pwyntiau. Oherwydd diffyg adnodd, nid yw'r Adran wedi gallu monitro cytundebau yn rheolaidd. Cadarnhawyd hyn ar gyfer y sampl a wiriwyd. Mynegwyd bod y swyddogion cludiant yn cynnal gwiriadau ar sail cwynion dderbyniwyd, ond nid oedd tystiolaeth cefnogol clir o'r gwiriadau wedi cael eu cadw.

5.4 Derbyniwyd enghreifftiau o asesiadau risg allanol a gynhaliwyd, ac ymholwyd os oedd asesiadau risg mewnol. Mae'n ofyniad i'r cyflenwyr ddarparu asesiad risg eu hunain wrth dderbyn cytundeb gyda'r Cyngor. Ar gyfer y sampl o gontractwyr a ddetholwyd, gwelwyd bod 5/12 asesiad ddim ar gael. Gwelwyd e-byst gan swyddog cludiant yn gofyn am yr asesiadau risg, ac eu bod am gychwyn cosbi cwmnïoedd sydd ddim yn ymateb.

5.5 Eglurodd y Rheolwr pe byddai damwain neu blentyn yn brifo, byddai'r gweithredwr yn llenwi ffurflen 'HS11' ac yn ei anfon i'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch. Gwiriwyd y Basdata Iechyd a Diogelwch am unrhyw HS11 diweddar, nid oedd unrhyw gofnod o gwbl yn ymwneud â thrafnidiaeth ysgolion.

5.6 Holwyd y Rheolwr Cludiant ynglŷn â threfniadau cydymffurfio â Polisi Alcohol a Chyffuriau'r Cyngor ac eglurodd nad oes trefniadau mewn lle gan y Gwasanaeth Cludiant, ond y byddent yn cysylltu â'r heddlu petaent yn ymwybodol o achos ble mae gyrrwr o dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Polisi newydd ers Mai 2024, sydd yn cydnabod gyrru bysiau/bysiau mini fel categori risg 'Gwaith Canlyniad Uchel Iawn' yn dilyn asesiad risg ar weithwyr, ond nid yw'r polisi yma wedi ei fabwysiadu gan ysgolion ar hyn o bryd. Mae'r hen bolisi (2012) yn weithredol , ble mae posib trefnu prawf gwirio am gyffuriau neu alcohol yn y gwaed os bod amheuaeth bod aelod o staff yn y gwaith o dan ddylanwad, ond nid yw hyn yn cynnwys contractwyr. Mae bwriad gan y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch drafod gyda undebau yn y misoedd nesaf gyda'r diben o fabwysiadu'r polisi newydd gan yr ysgolion.

5.7 Gwiriwyd sampl o ddadleniadau DBS ar gyfer 5 cwmni tacsi a 6 cwmni bysus. Y tîm Cludiant sydd yn gyfrifol am y cwmnïau bysus a'r gwasanaeth Trwyddedu sydd yn gyfrifol am y cwmnïau tacsis. Gwelwyd bod y gwasanaeth Trwyddedu yn defnyddio system 'Tascomi' ar gyfer cadw gwybodaeth DBS, ac mae modd gweld pa ddadleniadau sydd yn dod i ben trwy newid 'tab' ar y system. Gwelwyd bod gan y 5 o'r sampl tacsis dadleniad DBS cyfredol. Gwelwyd bod y Tîm Cludiant yn defnyddio taenlen Excel ar gyfer cadw gwybodaeth DBS gyrwyr bysiau, ac o'r daenlen, awgrymir bod dadleniad 16 gyrwyr bysiau i gwmnïau oedd yn y sampl wedi dod i ben. Fe wiriwyd hyn efo'r Rheolwr Cludiant ac eglurodd bod 6 wedi cael eu hadnewyddu, 2 gyrrwr ar fws cyhoeddus yn unig ac felly ddim angen DBS, 2 ddim yn gweithio i'r cwmni rhagor, y Cyngor yn disgwyl am gopi o'r DBS ar gyfer un yn y sampl, 3 wedi eu hadnewyddu gan Gyngor Ynys Môn ac yn disgwyl cael copi ar ffeil, ac un wedi gorfod cwblhau ffurflen arall gan fod y DBS wedi ei ganslo. Gwelwyd bod 4 yn y sampl wedi eu hadnewyddu ers mis Mai/Mehefin 2024, ond nad oedd y Rheolwr wedi eu derbyn tan ddiwedd mis Medi. Eglurodd bod diffyg adnodd oherwydd bod aelod o staff wedi gadael y tîm ac felly nid yw'r daenlen DBS a ddefnyddir yn gyfredol ac ymddengys nad yw'n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd. Cadarnhaodd y Rheolwr Cludiant y bod modd iddynt newid i system iGwynedd yn fuan er mwyn gallu monitro'r dadleniadau DBS yn fwy manwl.

6. **<u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Rheolwyr Cludiant wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cysylltu gyda'r gweithredwyr i wirio os yw profion alcohol a chyffuriau yn cael eu cynnal.**
- **Defnyddio y system pwyntiau gweithredu i gosbi cwmnïoedd sydd ddim yn anfon dogfennau.**
- **Monitro a rheoli cytundebau trafnidiaeth ysgolion yn rheolaidd a sicrhau bod cofnodion trylwyr yn cael eu cadw.**
- **Diweddaru'r Polisi Cludiant Ysgolion a'i roi ar wefan y Cyngor.**
- **Symud i system DBS y Cyngor er mwyn cadw manylion DBS cyfredol a sicrhau bod gwiriadau yn cael eu cynnal.**

Atodiad 2

## SYSTEM RHEOLI ABSENOLDEBAU A THREFNIADAU CYFEIRIO

### 1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd rhan 1 o'r archwiliad ym mis Ebrill 2024 fel bod modd adnabod risgiau a chwblhau'r camau gweithredu sylweddol cyn dyddiad gweithredol y system, sef 1af o Fehefin 2024. Adroddwyd bod trefniadau digonol mewn lle ar gyfer y cynllunio a dyluniad y system yng Ngorffennaf 2024 gyda phedwar risg wedi'u hamlygu a chytunwyd ar gamau gweithredu ar gyfer eu lliniaru.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad rhan 2 o'r archwiliad oedd sicrhau bod rheolwyr yn gweithredu ar absenoldebau salwch eu staff yn y system yn briodol ac mewn cydymffurfiaeth â'r Polisi Absenoldeb Salwch (yn weithredol o 1af o Fehefin 2024). Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gofyn i'r gwasanaeth TG i echdynnu data a creu adroddiadau penodol o'r system ar gyfer monitro cydymffurfiaeth a phrofi bod y data yn gywir, yn gyflawn ac wedi cael eu mewnbynnu yn brydlon.

### 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

### 4. Sgôr Risg Cyfredol

Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 2 |
| ISEL | 1 |

### 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Yn ystod Rhan 1 o'r archwiliad, adnabuwyd pedwar risg ychwanegol a chadarnhawyd bod y camau gweithredu cytunedig wedi cael eu cynnwys ar y rhaglen gweithredu a bod statws gweithredu ac unrhyw ddiffygion eraill yn cael eu trafod mewn cyfarfod wythnosol rhwng y swyddogion Cefnogol, Adnoddau Dynol a TG. Adroddwyd o'r 4 risg ag adnabuwyd, mae gweithrediad ar dri o'r camau gweithredu. Ar gyfer y risg sydd yn parhau i fod yn gyfredol, mae wedi cael ei ychwanegu i'r cynllun gweithredu cytunedig yn yr adroddiad yma gyda'r camau gweithredu ac unrhyw estyniadau wedi'u cytuno gyda chydlynydd y Prosiect.

5.2 Adroddodd y Swyddog Prosiect Systemau Adnoddau Dynol ei bod yn parhau i gydlynu gweithrediad y prosiect ac eglurwyd bod pob gwasanaeth ar wahân i'r Gwasanaeth Ysgolion, yn defnyddio'r system ar gyfer cofnodi salwch ac yn cydymffurfio â'r polisi newydd. Mae'r Cyngor a'r Undebau mewn trafodaethau o ran gweithredu'r polisi yn ysgolion Gwynedd. Yn y cyfamser, mae'r Arweinydd Tîm Uned Cyflogau a Chontractau Ysgolion yn parhau i redeg yr adroddiadau salwch a'u hanfon at sylw'r Gwasanaethau Corfforaethol ar gyfer bwydo'r wybodaeth i'r system Cyflogau ac er bwrpas yswiriant.

5.3 Mynegodd yr Arweinydd Tîm Ymgynghorydd Adnoddau Dynol bod yr adroddiadau canlynol yn weithredol:

- Adrannau, cyfnod salwch i gymharu â chyfnod mewnbynnu
- Staff ar y camau sbarduno cam 1, 2 neu 3
- Staff sydd heb dderbyn cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod absenoldeb
- Nifer sydd ddim yn gweithredu ar y 'triggers' megis rhai heb nodyn ffitrwydd dilys, heb gael cyswllt yn ystod absenoldeb salwch tymor hir
- Staff sydd o dan Panel Medrusrwydd Salwch
- Staff sydd ar absenoldeb salwch tymor hir

Fodd bynnag, nid oes adroddiad ar gyfer adnabod cydymffurfiaeth gweithredu ar y sbardunau cyfeirio at Iechyd Galwedigaethol na'r modd ar hyn o bryd i adnabod rhesymau salwch.

5.4 Serch hynny, roedd angen i'r system allu creu adroddiadau i fonitro absenoldebau salwch y Cyngor ar y cyfan ac o fewn yr adrannau at bwrpas megis cyfarfodydd herio perfformiad. Derbyniwyd diweddariad gan y Rheolwr Ymchwil a Gwybodaeth (Hydref 2024) bod ffigyrau Mehefin ar gael ond mai'r bwriad ydi cynhyrchu adroddiad cyflawn 'blwyddyn hyd yma' ar gyfer y Penaethiaid unwaith bydd modd echdynnu adroddiad ar gyfer ystadegau Gorffennaf hyd at Fedi yn gyfan a chywir, ond hefyd gyda ffigyrau Ebrill a Mai (o'r hen drefn) er mwyn gallu cymharu. Y gobaith yw y bydd y data fesul gwasanaeth a gyda chategori'r salwch.

5.5 Ymddengys bod sylfaen y modiwl yn weithredol ac yn ymddangos yn briodol ar gyfer rheoli absenoldebau salwch a chyfeirio, ond disgwylir i'r system hefyd gynnwys y rheolaethau a'r swyddogaethau allweddol canlynol;

- Profi bod sicrwydd dros drefniadau cadw copi wrth gefn a bod modd adfer y data yn effeithiol.
- Bod hawl creu adroddiadau a gallu i reoli math o wybodaeth ac echdynnu o'r system wedi ei gyfyngu at swyddogion penodol
- Y gallu i reolwyr rhedeg adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer rheoli salwch eu staff.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r Swyddog Prosiect Systemau Adnoddau Dynol wedi cytuno ar y gweithrediadau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Derbyn sicrwydd gan TG bod gwybodaeth yn cael ei arbed yn llwyddiannus neu fod modd adnabod copïau wrthgefn sydd yn aflwyddiannus.**
- **Cynnal prawf adfer o ddata wrthgefn ar y modiwl, a sicrhau bod y data wedi cael ei adfer yn gywir drwy gadarnhau gyda'r gwasanaeth/au berthnasol.**
- **Swyddogion Cefnogol yn cael yr hawl i weithredu ar geisiadau/ymholiadau salwch gan reolwyr llinell.**
- **Parhau i ddatblygu a phrofi'r system er mwyn sicrhau bod modd rhedeg adroddiadau pwrpasol rheoli absenoldebau salwch ayb.**
- **Parhau i ddatblygu adroddiadau ar gyfer monitro cydymffurfiad**

Atodiad 3

# CANU'R GLOCH

## 1. Cefndir

1.1 Lluniwyd y Polisi Canu'r Gloch gyda'r bwriad o annog gweithwyr i ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd a gwarchod enw da'r Cyngor. Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol yn fewnol yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff prif swyddfeydd y Cyngor am y Polisi Datgelu / 'Canu'r Gloch' ynghyd â chanfod barn gyffredinol y gweithwyr tuag at y polisi a'r trefniadau. Gwnaethpwyd hyn drwy ddylunio a dosbarthu holiadur ar-lein i holl weithwyr swyddfa'r Cyngor er mwyn darganfod unrhyw newidiadau yn y lefelau ymwybyddiaeth ers ymarferiad cyffelyb a wnaethpwyd yn 2017. Mae canlyniadau'r archwiliad yn adlewyrchu diwylliant y Cyngor.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel y ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 2 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae polisi Canu'r Gloch y Cyngor ar gael i'w ddarllen yn ddwyieithog yng nghanolfan polisi'r Cyngor. Adnabuwyd y canlynol wrth wirio'r polisi:

- Nid yw'r polisi yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer canu'r gloch e.e. enw swyddog, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, cyfeiriad post.
- Cyfeirir at y corff allanol 'Public Concern at Work', ond maent wedi newid eu henw i 'Protect' ers 2018.

5.2 Derbyniwyd 817 o ymatebion allan o dros 2,000 o gyfrifon e-bost gweithwyr, sef ymateb o oddeutu 40%. Roedd 82% ohonynt yn ymwybodol o'r Polisi sydd yn ostyngiad o canlyniadau 2017 o 87%.

5.3 Gwelwyd mai drwy'r Ganolfan Bolisi (369) a'u rheolwyr llinell (150) y daeth y nifer helaeth o'r staff yn ymwybodol o'r polisi. Dim ond 41 oedd yn ymwybodol gan eu bod wedi derbyn y Cerdyn Cyswllt Canu'r Gloch a 39 drwy weld poster. Roedd 88 o'r gweithwyr yn ymwybodol oherwydd Llawlyfr/Sesiwn Anwytho.

5.4 Gofynnwyd i'r sawl oedd yn ymwybodol o'r polisi, a oes ganddynt ffydd yn y drefn bresennol, gan roi sgôr rhwng 1 a 5, (1 yn dynodi 'dim hyder' a 5 yn 'gwbl hyderus'). Y sgôr ar gyfartaledd oedd 3.3, sy'n dynodi fod gweithwyr yn teimlo fod y system bresennol yn foddhaol, mae hyn yn gyson gyda sgôr cyfartalog 2017 oedd yn 3.4.

5.5 Mynegodd 25 o'r gweithwyr eu bod wedi 'canu'r gloch'. Roedd 12 ohonynt wedi nodi fod y mater wedi ei ddatrys a 8 yn mynegi fod y mater wedi ei ddatrys i raddau. Roedd 16 (o'r 25) yn hapus gyda'r modd cafodd y mater ei drin (cafodd 12 achos eu datrys a 4 eu datrys i raddau yn ôl eu barn hwy).

5.6 I'r sawl nad oedd yn ymwybodol o'r Polisi, gofynnwyd a ydynt erioed wedi pryderu am gamymarfer yn y gweithle ac wedi peidio gweithredu ar y mater yn seiliedig ar y ffaith nad oeddynt yn ymwybodol am y trefniadau Canu'r Gloch. Darganfuwyd bod 15 wedi peidio â gweithredu gan nad oeddynt yn ymwybodol o'r Polisi.

5.7 Rhestrodd yr holiadur enghreifftiau o amgylchiadau ble dylai gweithwyr ganu'r gloch os ydynt yn dod ar eu traws yn y gweithle. Gofynnwyd ar gyfer pa rai byddai'r gweithwyr yn debygol o ganu'r gloch. Mae'r sgôr yn dynodi'r canran o weithwyr a fuasai'n fodlon canu'r Gloch yn y sefyllfa a nodir isod. Mae gostyngiad ym mhob sgôr ers 2017.

| *"Rhywbeth sydd...* | |
|---|---|
| *... yn anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu yn llygredig* | *90%* |
| *... Rhywbeth sydd yn gyfystyr â chamweinyddu fel a ddiffinnir gan yr Ombwdsman Llywodraeth Leol* | *62%* |
| *... Rhywbeth sydd yn groes i, neu sydd heb fod yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor, ei Reoliadau Ariannol neu'i bolisïau, ei godau ymarfer neu ei ymrwymiadau cyfreithiol* | *71%* |
| *... Rhywbeth nad yw'n cyrraedd y safonau ymarfer sefydledig* | *56%* |
| *... Rhywbeth sydd yn torri unrhyw gôd ymarfer statudol* | *68%* |
| *... Rhywbeth sydd yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol* | *78%* |
| *... Rhywbeth sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol* | *90%* |
| *... Rhywbeth sydd yn peryglu iechyd a diogelwch unigolyn* | *84%* |
| *...Rhywbeth sydd yn achosi, neu sy'n debygol o achosi, niwed i'r amgylchedd* | *61%* |

| | |
|---|---|
| *...Rhywbeth sydd yn aflwyddiant cyfiawnder* | *74%* |
| *...Rhywbeth sydd yn gamddefnydd o rym, neu rym ac awdurdod y Cyngor ar gyfer unrhyw ddiben anawdurdodedig* | *78%* |
| *...Rhywbeth sydd yn methu ag unioni neu gymryd camau rhesymol i adrodd am fater sy'n debygol o olygu cost fawr y gellid ei hosgoi neu golli canlyniad i'r Cyngor neu a fyddai fel arall yn peryglu'r Cyngor** | *61%* |
| *...Rhywbeth sydd yn ymgais i guddio unrhyw rai o'r enghreifftiau uchod* | *82%* |
| *Dim o'r uchod* | *4%* |

5.8 Ar gyfartaledd nododd 73% o weithwyr eu bod yn barod i Ganu'r Gloch o gymharu â 83% yn 2017. Petai'r ymatebwyr yn datgan na fuasent yn canu'r gloch roedd gofyn iddynt egluro pam ddim. Nododd llawer ohonynt nad oedd ganddynt ffydd yn y drefn nag yn eu rheolwyr ac o ganlyniad yn poeni am yr oblygiadau arnynt yn bersonol neu ar eu swyddi / gyrfaoedd. Rhoddir sampl o'r sylwadau isod.

*"Pryder na fydd fy hunaniaeth yn aros yn gyfrinachol a risg os na fydd unrhyw beth yn deillio o'r mater."*

*"Oherwydd siamplau yn y gorffennol lle mae'r Cyngor heb weithredu mewn achosion uchel broffil pryd mae unigolyn neu unigolion wedi canu'r gloch mae aelodau staff yn dueddol o feddwl bod ddim pwynt godi mater wrth bod nhw'n amau fydd ryw fath o orchuddio yn cymryd lle."*

*"Ofn aflonyddu/neu gamdriniaeth gan y person sy'n ei wneud, megis rheolwr llinell ac ofn effeithiau negyddol ar swydd a datblygiad personol i'r dyfodol."*

5.9 Roedd y nifer helaeth o ymatebion yn brawf bod gweithwyr y Cyngor yn credu bod canu'r gloch yn bwysig. Mae'r sylwadau a'r awgrymiadau yn cynnwys pryder nad yw gweithwyr sy'n canu'r gloch yn cael eu diogelu, diffyg cefnogaeth a bod y drefn ddim digon cyfrinachol. Roedd nifer o'r ymatebion yn cynnwys sylwadau fod angen cynyddu ymwybyddiaeth am y polisi yn bennaf drwy hyrwyddo a hyfforddiant. Roedd nifer yn awgrymu cynyddu'r defnydd o bosteri mewn mannau gweledol neu ddosbarthu mwy o gardiau yn ogystal â chynnal sesiynau hyfforddi neu e-fodiwl mandadol.

5.10 Mae'r ystadegau llawn wedi'u rhannu gyda swyddogion.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r swyddogion perthnasol wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Diweddaru'r polisi gan gynnwys ychwanegu manylion cyswllt cyfredol.**
- **Creu a gweithredu cynllun codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo ar gyfer y Polisi.**

Atodiad 4

**RHEOLAETHAU ALLWEDDOL CREDYDWYR**

**1. Cefndir**

1.1 Mae anfonebau'r Cyngor yn cael eu prosesu i'w talu yn ganolog gan yr Uned Taliadau. Yn ystod 2023/24 proseswyd anfonebau lleol o fewn oddeutu 20 diwrnod ar gyfartaledd, tra bod yr anfonebau nad ydynt yn lleol wedi cymryd oddeutu 27 diwrnod. Mae canran uchel o daliadau wedi eu talu trwy BACS yn ystod 2023/24 gyda llai o daliadau siec yn cael eu prosesu yn dilyn ymdrech i symud at daliadau BACS, ceisio moderneiddio a gwella effeithlonrwydd, ac mae'r Uned yn hybu mwy o adrannau i anfon gwybodaeth yn electroneg er mwyn lleihau dyblygiadau ac i brosesu'r anfonebau hynny yn gynt. Cytunwyd i rai gwasanaethau brosesu anfonebau eu hunain megis Gwasanaeth Preswyl a Gofal Cymunedol i dalu yn wythnosol i ddarparwyr gofal. Mae manylion yr anfonebau yn cael eu mewnbynnu ar daenlen sydd yn cael ei lwytho i'r system i'w talu. Mae'r Uned Taliadau yn cymeradwyo'r taliadau cyn gwneud y rhediadau talu. Mae'r broses yma yn cael ei dreialu gyda'r gobaith i ledu'r gweithrediad i wasanaethau eraill yn y dyfodol a fydd yn lleihau llwyth gwaith yr Uned Taliadau.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod rheolaethau allweddol system credydwyr yn cael eu gweithredu'n briodol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio rheolaethau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer creu ac addasu manylion cyflenwyr, prosesu, cymeradwyo a thalu anfonebau, cysoniadau'r system, a trefniadau diogelu'r system a hawliau mynediad.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 5 |
| **ISEL** | 1 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Ymddengys nad oes llawlyfr ar gyfer staff Taliadau. Fodd bynnag, eglurodd y Rheolwr Taliadau a Systemau bod 'user guide' ar gyfer y prosesau mawr megis cau cyfrifon diwedd mis, llwytho a chymeradwyo taliadau. Nid yw pethau syml megis mewnbynnu swmp o anfonebau wedi'i ddogfennu oherwydd bod y drefn yn un syml. Yn ogystal, mae Cyfansoddiad y Cyngor 16.20.24 yn cyfeirio at hawliau llofnodwyr '*Rhaid i fod Prif Swyddog anfon enwau'r swyddogion sydd ag awdurdod i ardystio'r cyfryw gyfrifon at y Pennaeth Cyllid ynghyd ag enghreifftiau ysgrifenedig o'u llofnodion byr a hir a rhaid diwygio'r rhain os digwydd unrhyw newid."* Fodd bynnag, nid yw'r rhestr o lofnodwyr yn gyfredol bellach ac nid yw'r Uned Taliadau yn eu defnyddio. Eglurwyd bod yr Uned Taliadau yn derbyn yr anfonebau i'w talu drwy e-bost gan y gwasanaethau gyda slip cymeradwyo taliadau (TR) ynghlwm wedi'u cwblhau ar gyfer pob anfoneb i'w prosesu.

5.2 Mynegodd y Rheolwr Taliadau a Systemau nad oedd cysoniadau misol wedi cael eu cynnal yn rheolaidd yn ystod ein harchwiliad ond cytunodd y dylai bod cysoniadau yn cael eu cynnal ar sail misol a bydd yn ychwanegu'r dasg ar ddiwedd pob mis.

5.3 Derbyniwyd 'aged creditors report' gan y Rheolwr Taliadau a Systemau oedd yn dangos bod balansau ar y cyfrifon. O'r adroddiad, gwelwyd bod dim ond 4 o'r anfonebau yma oedd dros 90 diwrnod gyda chyfanswm o £8,793.07, a'r gweddill o fewn y 30 diwrnod pan redwyd yr adroddiad (14/06/2024). Gwiriwyd y rhain yn ôl i'r system ar gyfer adnabod rhesymau dros y symiau dyledus, ac ymddengys eu bod yn parhau i fod yn ddyledus. Eglurodd y Rheolwr Taliadau a Systemau bod y Gwasanaeth yn ystod cynnal ymarferion glanhau data'r system, ble maent yn adnabod niferoedd uchel neu cyfansymiau uchel o anfonebau dyledus ym mhob Gwasanaeth a'u gwirio gyda'r cyflenwyr ar gyfer adnabod y rhesymau bod dyled yn parhau ar gyfrifon y cyflenwyr, a'u datrys.

5.4 Yn ogystal, o'r adroddiad uchod gwelwyd bod sawl un gyda chredyd ar y cyfrif h.y. swm yn ddyledus i'r Cyngor. O'r adroddiad ymddengys bod gwerth cyfanswm o £101,281.55 o nodiadau credyd yn sefyll ar y system, sef 61 o gyfrifon. Ymddengys bod £72,714.65 dros 90 diwrnod credyd. Rhedwyd adroddiad annibynnol o'r holl nodiadau credyd sydd ar y system a dengys bod cyfanswm o oddeutu £113,200 o balansau credyd yn bodoli gyda'r cofnod hiraf yn ôl yn 2017. Nodwyd bod nodyn credyd ar y system yn cynnwys credyd hanesyddol sydd wedi cael eu rhoi yn ôl i'r Cyngor, ond rhain sydd yn ymddangos fel 'outstanding' sydd yn disgwyl cael eu adhawlio/ddefnyddio. Gwiriwyd sampl o gyfrifon ac ymddengys bod rhain gyda balansau credyd ar y cyfrif. Mynegodd y Rheolwr Taliadau a System bod y system yn atal unrhyw taliadau ble ma credyd ar y system nes i rhain cael eu clirio. Mae'r adrannau yn gyfrifol am ad-hawlio'r credyd yn ôl i'r Cyngor. Ers yr archwiliad, cadarnhaodd y Rheolwr Taliadau a Systemau, o Dachwedd 2024, bod adroddiad misol yn cael ei rhedeg o falansau credyd ar gyfer eu cyfeirio at yr adrannau perthnasol i geisio ad-hawlio'r balansau yn ôl i gyfrif y Cyngor.

5.5 Gwelwyd bod sawl modd ar gyfer adnabod credydwyr dyblyg. Mynegodd y Rheolwr Taliadau a Systemau bod llawer o gredydwyr dyblyg ar y system ac nid yw'n ymarferol i'w dileu heb effeithio ar y trywydd archwilio. Fodd bynnag, mae posibilrwydd eu hanablu. Gan nad yw'n ymarferol i'w hadolygu, mae'r system yn parhau gyda symiau uchel o gredydwyr wedi'u dyblygu ar y system sydd yn cynyddu risg o daliadau dyblyg. Er mwyn osgoi creu ragor o gredydwyr dyblyg ar y system, mynegodd y Rheolwr Taliadau a Systemau bod yr Uned yn gwirio manylion banc credydwyr newydd ar y system cyn eu creu ac os yw'n ymddangos bod mwy nag un cyfrif yn erbyn yr un manylion, yna bydd swyddogion yn anablu y rhai dyblyg.

5.6 Ymholwyd os yw'r Uned wedi profi bod data wrthgefn y system yn gallu cael eu hadfer yn llwyddiannus, mynegodd y swyddog TG bod modd rhedeg y system brawf ond bod yn golygu na fydd y system yn weithredol am gyfnod byr, yn ogystal bydd angen amserlen ar gyfer eu gweithredu ac i ddilysu'r data gyda'r gwasanaethau ar gyfer sicrhau bod y data yn gywir ac wedi cael eu hadfer yn llwyddiannus. Oherwydd hyn, nid yw'r prawf wedi cael ei gynnal ar ddata'r system hyd yma.

## 6. Camau Gweithredu

**Mae'r Uned Taliadau wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cyhoeddi llawlyfr ffurfiol ar gyfer staff yr Uned Taliadau er mwyn sicrhau bod prosesau yn cael eu gweithredu'n gyson, effeithiol ac effeithlon ac unrhyw ddiweddariad o'r gweithdrefnau ariannol yn cael eu diwygio a'u cymeradwyo.**
- **Cais i TG ar gyfer derbyn sicrwydd bod modd adfer y data o'r data wrth gefn yn effeithiol**
- **Cysoniadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r system i'r cyfriflyfr i sicrhau bod balansau yn gywir ac unrhyw anghysondebau yn gallu cael eu datrys yn brydlon.**
- **Adolygu anfonebau ar y system sydd yn ymddangos fel 'oustanding' ers peth amser a symiau uchel (fel un anfoneb neu wedi'i cronni) fel bod modd dilysu taliad neu eu dileu.**
- **Adolygu credydwyr dyblyg ar y system ar gyfer sicrhau os yw angen cael eu hanablu neu beidio drwy**
    - **Gwneud cais i dderbyn sgript gan 'Advance' o gredydwyr dyblyg heb eu defnyddio ers peth amser;**
    - **Adolygu adroddiad o gyflenwyr sydd wedi derbyn taliadau siec diwethaf a hynny dros 2/3 mlynedd yn ôl i'w anablu;**
    - **Staff i wirio dyblygiadau wrth greu a newid manylion credydwyr drwy gwirio manylion banc yn bennaf;**
    - **Staff yn gwrthod neu derbyn gwiriadau dyblyg adroddiad NXG**
- **Adolygu'r nodiadau credyd sydd yn sefyll ar y system fel bod modd adnabod os oes modd eu ad-hawlio. Cynnal adolygiadau misol ar gyfer sicrhau bod y credyd yn ddilys, yn cael ei ddefnyddio neu ei adhawlio.**

Atodiad 5

## MEYSYDD PARCIO

**1. Cefndir**

1.1 Mae meysydd parcio parciau gwledig a rhai traethau yn dod dan gyfrifoldeb yr Adran Economi a Chymuned. Gwelwyd bod parciau gwledig yn cael eu rheoli gan y Rheolwr Adnoddau Hamdden a meysydd parcio traethau dan reolaeth y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol. Ar hyn o bryd, mae 2 faes parcio sefydledig yn Llanberis ers tro, sef Dolbadarn a Gilach Ddu gyda peiriannau codi ffi am barcio, ac mae safle newydd Y Glyn wedi'i sefydlu yn codi ffi ers Mehefin 2024. Mae gan y Gwasanaeth Morwrol dri maes parcio yn codi ffi sef traeth Machroes Abersoch, Harbwr Porthmadog ac yn nhraeth Dinas Dinlle ers Awst 2024. Yn ogystal, mae traeth Morfa Bychan yn codi ffi mynediad. Mae peiriannau 'Pay a Display' ar y safleoedd unai wedi cael eu darparu gan cwmni 'Metric' yn hanesyddol neu 'Flowbird' ar gyfer rhai newydd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer codi a chasglu ffioedd meysydd parcio o barciau gwledig, traethau a harbyrau. Er mwyn cyflawni hyn, 'roedd yr archwiliad yn cwmpasu meddiannu rhestr o feysydd parcio taladwy a gwirio bod incwm yn cael ei gasglu, derbyn a'i gysoni yn brydlon. Adnabod unrhyw arbedion/manteision o gyd-weithio/rhannu asedau rheoli meysydd parcio gyda'r Adran Amgylchedd.

**3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad**

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

**4. Sgôr Risg Cyfredol**

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Darganfuwyd bod 4 o'r meysydd parcio yn caniatáu taliadau drwy cardiau credyd/debyd a'r gweddill yn derbyn arian parod yn unig, gyda'r bwriad i newid y peiriannau i dderbyn cardiau erbyn 2025, bydd yn cael ei hariannu drwy cyllid Parc Padarn.

5.2 Eglurwyd bod 2 o'r meysydd parcio newydd sydd wedi cael eu sefydlu gyda peiriannau 'Flowbird' a'r gweddill yn beiriannau 'Metric'. Mae peiriannau 'Metric' Morwrol yn derbyn arian parod yn unig a gyda threfniadau casglu arian eu hunain, ble mae staff yn gyfrifol am gysoni a thalu mewn yr arian parod i gyfrif y Cyngor. Ni adroddwyd unrhyw faterion yn deillio o'r trefniant hyn ond adnabuwyd bod risgiau cysylltiedig all eu lliniaru drwy symud i beiriannau derbyn cardiau.

5.3 Mae peiriannau 'Metric' eraill gan y Gwasanaeth Parciau Gwledig yn derbyn taliadau drwy cardiau debyd/credyd. Mae taliadau hefyd yn cael eu casglu drwy app 'PaybyPhone', ble caiff yr arian ei dalu i gyfrif y Cyngor llai swm y comisiwn gan cwmni 'PayByPhone'. Mae'r adroddiad yn cael ei ddarparu gan 'Metric' a 'PaybyPhone' yn dadansoddi'r taliadau ac yn cael eu hanfon at sylw'r Gwasanaeth Incwm, ble bydd y Swyddog Cysoni yn prosesu'r incwm i'r codau perthnasol yn y cyfriflyfr. Cysonwyd adroddiad y Warden yn erbyn adroddiad 'PaybyPhone' ar gyfer Ebrill 2024 hyd ddiwedd Mehefin 2024 ac i'r cyfriflyfr, ac adroddiad y Warden ar gyfer 'Metric' sydd yn derbyn taliadau cardiau drostynt. Gwelwyd bod gwahaniaethau wrth geisio cynnal y cysoniad ond ymddengys bod 'cut off dates' gwahanol i adroddiad y Warden ac adroddiadau 'PayByPhone'.

5.4 Mae cwmni 'Security Plus' yn casglu arian parod o'r peiriannau 'Metric' a'u talu i mewn i gyfrif y Cyngor ac yn codi anfoneb i'r gwasanaeth yn uniongyrchol at sylw Prif Warden Parc Padarn i'w prosesu. Gwiriwyd sampl o 'schedules' yn erbyn y arian a dderbyniwyd yn y cyfriflyfr ac adroddiad y Warden. Nid oedd tystiolaeth bod rhain yn cael eu cysoni yn rheolaidd.

5.5 O ran peiriannau 'Flowbird', mae arian gan 'TillPayments' ar gyfer Y Glyn yn cael ei dderbyn yn ddyddiol drwy gyfriflen Sefydliadau ac mae'n cael ei roi yn syth yn erbyn cod parcio Padarn yn y cyfriflyfr. Cadarnhawyd hyn drwy wirio'r cyfriflyfr. Eglurodd bydd yr incwm ar gyfer maes parcio Dinas Dinlle gyda'r un trefniadau.

5.6 Mynegodd y Rheolwr Adnoddau Hamdden bod maes parcio Y Glyn wedi cael ei gyllido drwy sicrhau grant ar gyfer y safle ymwelwyr ac felly mae'r incwm o'r meysydd parcio hyn angen cwrdd â meini prawf a chydymffurfio â gofynion y grant i fod yn gymwys. Adroddwyd bod y grant Pethau Pwysig a 'Levelling Up Fund' wedi'u sicrhau a bod modd datblygu safleoedd ymwelwyr gan gynnwys safle/maes parcio Gilfach Ddu a maes parcio Dinas Dinlle.

5.7 Un pryder sylweddol amlygwyd gan y Gwasanaethau yw'r diffyg i weithredu trefniadau gorfodi taliadau parcio ar gyfer cerbydau sydd ddim yn talu ar eu meysydd parcio. Nid oedd gwasanaeth gorfodaeth parcio o fewn yr Adran Economi a Chymuned ar amser yr archwiliad. Adroddodd bod hawl gorfodi mewn lle ond nid oedd ganddynt yr adnoddau i'w weithredu. Mynegodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod y Gwasanaeth wedi bod yn rhoi sticeri ar geir i rwystro cerbydau sydd yn parcio heb dalu. Golyga hyn bod y Cyngor yn colli incwm hir dymor. Yn ogystal, adnabuwyd dyma ble all Gwasanaeth Gorfodaeth, Adran Amgylchedd eu cynorthwyo i gefnogi a chyfrannu tuag at ymdrech i sicrhau ffrwd incwm i'r Cyngor ac i gwrdd â tharged arbedion y Cyngor. Mae colledion yn digwydd os nad oes trefniadau gorfodaeth mewn lle.

5.8 Adroddodd y Rheolwyr bydd y Gwasanaeth yn croesawu'r Gwasanaeth Gorfodaeth Parcio Adran Amgylchedd i orfodi safleoedd parcio Economi a Chymuned ac yn fodlon bod unrhyw gosbau sydd yn cael eu hadennill drwy'r Gwasanaeth Gorfodaeth yn mynd tuag at ffrwd incwm yr Adran Amgylchedd. Yn ogystal, bydd yn sicrhau bod cysondeb yn y drefn gorfodi ffioedd meysydd parcio'r Cyngor a lleihau cwynion gan y cyhoedd/preswylwyr lleol.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Adnewyddu peiriannau codi arian meysydd parcio i alluogi derbyn taliadau cardiau.**
- **Cydweithio gyda'r Adran Amgylchedd ar gyfer sicrhau bod yr holl feysydd parcio yn destun Gorfodaeth gan yr Adran Amgylchedd.**
- **Sicrhau bod cyfrifoldebau dros gysoni'r holl incwm meysydd parcio i'r cyfriflyfr ac i'r peiriannau yn digwydd a bod unrhyw wahaniaethau yn cael eu hegluro.**

Atodiad 6

# TOILEDAU CYHOEDDUS

## 1. Cefndir

1.1 Mae gan y Cyngor 61 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd sydd, o ran niferoedd, y ddarpariaeth uchaf yng Nghymru sy'n cael ei reoli gan Awdurdod Lleol. Yn dilyn ymarferiad Her Gwynedd yn 2016, ac i gyflawni toriad o £244,000 yn y gwasanaeth, gwireddwyd dulliau amgen o ddarparu'r gwasanaeth drwy'r Cynllun Partneriaethu Cynghorau Cymuned a Thref, er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau cyhoeddus y Sir yn agored.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle ar gyfer darparu cyfleusterau toiledau cyhoeddus. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio os yw'r Cyngor yn cydymffurfio gyda Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, yn ogystal â gwirio trefniadau gyda partneriaid, megis busnesau lleol a Chynghorau Tref a Chymuned.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 3 |
| ISEL | 0 |

**5. Prif Ddarganfyddiadau**

5.1 Fel holl Awdurdodau Lleol Cymru, mae yna ddyletswydd statudol ar Wynedd i asesu anghenion y gymuned leol dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Rhan 8 (Darparu Toiledau) drwy baratoi a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol ar gyfer eu hardal. Mae'r strategaeth yn anelu i sicrhau darpariaeth o gyfleusterau glan a diogel sydd yn cael eu cynnal yn briodol. Yn dilyn trafodaethau gyda'r adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, ymddengys bod gwaith wrth law i adolygu'r Strategaeth cyn mis Mai 2025. Mynegir yn y Strategaeth y bydd y Cyngor yn cynnal adolygiad ac yn paratoi adroddiad cynnydd interim bob dwy flynedd. Gwelwyd cofnodion wedi ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth Medi 2023 yn trafod y camau a'r awgrymiadau mewn perthynas a'r toiledau.

5.2 Yn ôl yn 2010, cyflwynwyd trefn drysau talu o fewn 5 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd. Y ffi cyfredol ar gyfer mynediad i'r toiledau yw 20 ceiniog. Derbyniwyd ddogfen yn nodi costau rhedeg y drysau talu, incwm o'r drysau, y targed incwm a'r gwir incwm a gwelwyd bod y ffigyrau yn arddangos nad yw'r targed incwm gyfredol yn gyraeddadwy. Roedd yr incwm ar gyfer 2022/23 yn £4,676 o arian parod. Gwelwyd bod bwlch ariannol enfawr yn bodoli gan mai'r targed incwm ar gyfer 2022/23 oedd £57,960. Amlygwyd y problemau ynghlwm a'r drysau, sef bod y peiriannau wedi cyrraedd diwedd eu hoes, y gwasanaeth yn wynebu achosion o fandaliaeth reolaidd a bod y gost o gasglu'r arian parod yn uchel. Darganfuwyd bod y gwasanaeth yn edrych ar opsiynau amgen ynglŷn a'r drysau ac yn treialu talu gyda arian a cherdyn, ac wedi derbyn arian bid gan y Tîm Arweinyddiaeth i fuddsoddi mewn cyfarpar drysau talu newydd a gobeithio fydd yn weithredol erbyn y flwyddyn ariannol nesaf.

5.3 Yn dilyn ymarfer ymgysylltu Her Gwynedd yn 2016, gwireddwyd Cynllun Partneriaeth gyda Chynghorau Thref a Chymuned er mwyn cadw'r mwyafrif o doiledau presennol y Sir yn agored i'r dyfodol. Datblygwyd y cynllun fel trefniant i gyd-weithio gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ac iddynt gyfrannu tuag at gostau rhedeg y toiledau. Gwelwyd bod cytundebau mewn lle gyda'r Cynghorau er adlewyrchu eu hymrwymiad i'r Cynllun, ond hefyd cytundeb o'r cyfraniad at y gost o gyflwyno ddarpariaeth. Eglurodd y Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC bod incwm yn cael ei greu drwy y cyfraniadau, ond nad yw'r ffioedd yn cynyddu gyda chwyddiant, ac felly mae bwlch ariannol yn bodoli. Yn dilyn trafodaethau gyda'r gwasanaeth, mae bwriad cyflwyno chwyddiant ar y ffi blynyddol er mwyn cyfarch y bwlch yma, ac mae hyn wrthi'n derbyn sylw.

5.4 Mae'r Cyngor yn talu swm o hyd at £500 i berchnogion siopau, bwytai a thafarnau i ganiatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau, gan felly ehangu y ddarpariaeth o doiledau sydd ar gael i'r cyhoedd. Nodir yn amodau a thelerau y grant "*bod yn rhaid i'r darparwr gwasanaeth arddangos o leiaf un arwydd yn dangos ar ffenestr neu ddrws addas ei fod yn aelod o'r Cynllun ac i hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r toiledau*". Ymwelwyd a 6 busnes sy'n derbyn grant er mwyn gwirio hyn a gwelwyd mai dim ond 1 lleoliad oedd yn arddangos arwydd penodol Cyngor Gwynedd, ond cafwyd cadarnhad allanol bod dau fusnes arall yn arddangos yr arwydd. Cadarnhaodd y Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC bod arwyddion newydd yn cael eu hargraffu a bydd angen eu dosbarthu i pob busnes, a chael trefniadau monitro gwell ar gyfer busnesau sydd wedi derbyn taliad.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Archwiliadau blynyddol yn cael eu cynnal ar gyfer pob busnes ar y cynllun.**
- **Cyfathrebu gyda Chynghorau Cymuned a Thref ynglŷn a chodi chwyddiant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.**
- **Prosiect ar y gweill i dreialu drysau talu efo arian a cherdyn ym Mhwllheli cyn symud ymlaen at y lleoliadau eraill.**

Atodiad 7

# GRANT ATAL DIGARTREFEDD 2022/23

## 1. Cefndir

1.1 Dyrannwyd Lywodraeth Cymru dros £1.2m o grant i Wynedd yn ystod 2022-23 fel rhan o ymgyrch atal digartrefedd, wedi ei rannu i elfen 'Neb heb help' (£938k) i ariannu cymorth megis llety dros dro ac elfennau cefnogol na ellir ei ariannu drwy y Grant Cymorth Tai, £208k i atal digartrefedd yn ôl disgresiwn i'w ddefnyddio'n hyblyg i atal digartrefedd a chefnogi mesurau sy'n lleihau dibyniaeth ar lety dros dro, a £60k i ariannu swydd Cydlynydd Strategol.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd ardystio tystysgrif archwilio 2022-23 drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Darganfyddiadau

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigyrau y tystysgrif archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio i'r ffigyrau.

5.2 Gwelwyd na chafodd y rhandaliadau grant eu hawlio hyd nes blwyddyn ar ôl y dyddiad fel a nodwyd ym mhroffil talu y llythyr cynnig grant. Mae’r llythyr cynnig grant yn nodi fod angen hawlio’r cyllid yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru, ac maent yn cadw’r hawl i dynnu’r cynnig grant yn ôl petai’r Cyngor ddim yn eu hawlio yn brydlon. Mae newidiadau staffio o fewn y Gwasanaeth a’r adran Gyllid wedi cyfrannu at yr oediadau, ond mae cyfathrebu parhaus wedi bod gyda swyddog o Lywodraeth Cymru ynglŷn a’r sefyllfa.

5.3 Mae’r elfen i wario drwy ddisgresiwn wedi tanwario £56k o’u dyraniad yn ystod y flwyddyn, sy’n awgrymu bod cyfle wedi ei golli i hawlio mwy o gostau, ond yn dilyn y newidiadau staffio, mae’r grant wedi cael ei hawlio yn llawn ar gyfer 2023-24.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Cwblhau a chyflwyno’r hawliadau grant, ynghyd â’r dogfennau cefnogol yn amserol.**

Atodiad 8

# GRANT CYMORTH TAI

## 1. Cefndir

1.1 Rhaglen grant ymyrraeth cynnar yw'r Grant Cymorth Tai, i helpu atal pobl rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, neu helpu unigolion a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety, a'i gadw. Mae'n helpu pobl sy'n agored i niwed i fynd i'r afael â phroblemau megis dyledion, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Dyrannwyd hyd at £6.8m o grant i Wynedd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023-24, ynghyd a £170K ychwanegol am elfen sy'n trosglwyddo o'r Grant Atal Digartrefedd.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd ardystio tystysgrifau archwilio 2023-24 y Grant Cymorth Tai, ynghyd a'r elfen sy'n trosglwyddo o'r Grant Atal Digartrefedd, drwy wirio'r costau a hawliwyd, yn ogystal â sicrhau bod y Gwasanaeth wedi cydymffurfio ag amodau'r llythyr cynnig grant.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **CYFYNGEDIG** | **Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 1 |
| **CANOLIG** | 0 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gellir datgan sicrwydd o gywirdeb ffigyrau tystysgrif archwilio'r Grant Cymorth Tai ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. Yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd, gwelwyd fod trywydd archwilio i'r ffigyrau.

5.2 Mae’r tystysgrif archwilio yn gofyn i’r Archwiliwr Mewnol gadarnhau bod y gwariant yn briodol, ac yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y grant, yn unol â gofynion y llythyr cynnig. Gan fod y grant yn ariannu taliadau i amryw o ddarparwyr mewnol ac allanol, mae’r Gwasanaeth wedi cynnal ymweliadau monitro er mwyn sicrhau priodoldeb y darpariaeth a’r taliadau a wneir, yn dilyn cyfnod o brinder staffio.

5.3 Yn sgil sefydlu’r Grant Cymorth Tai ym mis Ebrill 2019, trosglwyddwyd prosiectau ‘prif raglen’ a ariennir gan y Grant Atal Digartrefedd i’r Grant Cymorth Tai o 2022-23, ac roedd cyllid grant wedi’i neilltuo ar gyfer cyfnod trosiannol o ddwy flynedd. Roedd angen hawlio yr arian yma a cwblhau tystysgrif archwilio ar wahân i’r Grant Cymorth Tai. Er derbyniwyd yr arian grant am yr elfen yma yn 2022-23, nid oedd y dystysgrif archwilio am y cyfnod wedi ei gyflwyno, sydd bellach dros flwyddyn ar ôl y dyddiad terfyn nodwyd yn y llythyr cynnig grant. Yn ogystal, nid oedd modd arwyddo tystysgrif archwilio 2023-24 erbyn y dyddiad nodwyd yn y llythyr cynnig gan fod y ceisiadau grant chwarterol heb eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn digwydd maes o law. Mae’r llythyr cynnig grant yn nodi fod angen hawlio’r cyllid yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru, ac maent yn cadw’r hawl i dynnu’r cynnig grant yn ôl petai’r Cyngor ddim yn eu hawlio yn brydlon.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Mae’r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Cwblhau a chyflwyno’r hawliadau grant, ynghyd a’r Tystysgrifau Archwilio ar gyfer yr elfen o’r Grant Atal Digartrefedd sy’n trosglwyddo i’r Grant Cymorth Tai, i Lywodraeth Cymru.**

Atodiad 9

# CYNNAL Y GOFRESTR AROS TAI

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cyngor Gwynedd, Adra, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru wedi sefydlu partneriaeth o'r enw Partneriaeth Cofrestr Tai Gyffredin Gwynedd. Mae'r Tîm Opsiynau Tai o fewn Cyngor Gwynedd yn cadw'r Gofrestr Tai ar ran y Bartneriaeth ac yn delio gyda cheisiadau yn unol â'r Polisi Gosod Tai Cyffredin.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod y Gofrestr Aros Tai yn cael ei gynnal yn briodol, ac yn unol â'r polisi Gosod Tai Gyffredin. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o unigolion ar y gofrestr, gan wirio bod eu ceisiadau wedi eu prosesu yn briodol, ac yn unol â'r Polisi.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Mae'r Polisi Gosod Tai Gyffredin yn egluro ei fod yn "*bodloni'r gofynion a nodwyd yn Rhan 6 Deddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Digartrefedd 2002 a Deddf Tai (Cymru) 2014), gan roi blaenoriaeth resymol i'r ymgeiswyr hynny sydd fwyaf anghenus. Yn benodol, dylid ystyried y polisi hwn fel cynllun dyrannu Cyngor Gwynedd yn unol ag adran 167(1) Deddf Tai 1996. Mae hefyd yn ymgorffori'r prif nodau ac amcanion a amlinellir yn Strategaeth Tai Gwynedd. Mae'r Polisi yn adlewyrchu angen tai drwy osod ymgeiswyr mewn un o bedwar band blaenoriaeth*" (gyda'r sawl sydd yn y band blaenoriaeth uchaf wedi rhannu ymhellach i'r rhai sydd gyda chysylltiad â Gwynedd, a rhai sydd heb).

5.2 Cafwyd mynediad at system ‘Open Housing’, a chynhyrchwyd adroddiad o’r gofrestr aros er mwyn dethol sampl o ymgeiswyr. Bydd system newydd yn cymryd lle ‘Open Housing’ yn 2025. Detholwyd sampl o 10 (2 ym mhob band), gan wirio bod y ffurflenni wedi eu cwblhau’n briodol a bod y dystiolaeth angenrheidiol wedi ei dderbyn. Mae’r dystiolaeth a’r dogfennau ategol yn cael ei gadw ar ‘Sharepoint’.

5.3 O’r sampl detholwyd, gwelwyd bod y gwiriadau disgwyliedig wedi eu cynnal a’r dystiolaeth briodol wedi ei dderbyn. Derbyniwyd eglurhad pellach gan y Gwasanaeth petai amgylchiadau’r cais yn awgrymu bod y band dyrannwyd efallai yn wahanol i’r disgwyl. Ers ei phenodi i’r swydd ym mis Ebrill 2022, mae’r Arweinydd Tîm Siop Un Stop wedi cyflwyno taenlen asesu ar sail rhestr wirio, gydag ail swyddog yn cynnal gwiriad annibynnol er mwyn sicrhau priodoldeb. Roedd y sampl detholwyd yn canolbwyntio ar y cyfnod yma. Er nad oedd y rhain yn gyflawn ym mhob achos, mae nodiadau pellach yn system ‘Open Housing’ yn ymhelaethu ar y gwaith gwirio gwnaethpwyd.

5.4 Un o’r pryderon amlygwyd yw nad yw’n rhwydd i’r Gwasanaeth allu gwirio ar adegau bod gan ymgeiswyr gysylltiadau hanesyddol gyda Gwynedd, sy’n cael effaith ar flaenoriaeth yr ymgeiswyr. Trafodwyd y posibilrwydd o ddefnyddio gwybodaeth sydd eisoes gan y Cyngor, megis y Gofrestr Etholiadol a Threth Cyngor, i’w gynorthwyo. Gan fod datganiad preifatrwydd Treth Cyngor yn caniatáu rhannu data yn fewnol at ddibenion eraill megis atal a chanfod twyll, yna mae bwriad i’r Tîm Opsiynau Tai dderbyn hyfforddiant a gwneud defnydd o’r data at bwrpas dilysu ffurflenni cais.

5.5 Mae’r Fenter Twyll Genedlaethol yn ymarferiad dwyflynyddol sy’n paru amryw o ddata mewnol gyda’i gilydd, yn ogystal â data sydd wedi eu darparu gan sefydliadau allanol er mwyn darganfod ac atal twyll. Cyflwynir data'r Gofrestr Aros Tai i’r Fenter, a hynny er mwyn paru gyda data budd-daliadau, rhestrau aros awdurdodau eraill a data marwolaethau Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU. Mae paru data cyfrifiadurol yn golygu bod modd adnabod ceisiadau sydd gydag anghysondebau posib y mae angen ymchwilio iddynt ymhellach. Gan fod y Cyngor ar drothwy ymarferiad newydd ar amser yr archwiliad, mae’r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ymchwilio i’r parau bydd y Fenter yn cyflwyno.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Arweinydd Tîm Siop Un Stop Tai wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Derbyn hyfforddiant a mynediad at ddata Treth Cyngor er mwyn dilysu gwybodaeth ar ffurflenni cais**
- **Archwilio’r unigolion bydd y Fenter Twyll Genedlaethol yn amlygu drwy baru data**